# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Senedd**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Chwefror 2025

Amser: 09.32 - 12.24

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15252

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Andrew RT Davies AS (Cadeirydd)<br>Hannah Blythyn AS<br>Hefin David AS<br>Luke Fletcher AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio<br>Jo Salway, Llywodraeth Cymru<br>Rachel Sanders, Llywodraeth Cymru<br>Neil Surman, Llywodraeth Cymru<br>Leigh Hughes, Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd<br>Owain Jones, Regional Learning and Skills Partnership South |

| | |
|---|---|
| | West Wales<br>Pryderi Ap Rhisiart, North Wales Regional Skills Partnership<br>Ceri Stephens, Mid Wales Regional Skills Partnership |
| Staff y Pwyllgor: | Robert Donovan (Clerc)<br>Nicole Haylor-Mott (Dirprwy Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katy Orford (Ymchwilydd)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd)<br>Lucy Morgan (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau ar ddiwedd y sesiwn gyhoeddus.

**2.1 Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch parthau buddsoddi**

**2.2 Cydsyniad deddfwriaethol: Bil Hawliau Cyflogaeth**

**2.3 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm**

**2.4 Gwaith dilynol i gyfarfod y Pwyllgor ar 15 Ionawr 2025 - Y Warant i Bobl Ifanc**

**2.5 Cydsyniad deddfwriaethol: Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)**

**2.6 Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru**

**2.7 Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach**

## 3 Llwybrau prentisiaeth - Panel 4 - Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Leigh Hughes (Cadeirydd, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (ESB)), Owain Jones (aelod o grŵp clwstwr Adeiladu Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru, ac Ymddiriedolwr ac Aelod Bwrdd CITB), Pryderi Ap Rhisiart (Cadeirydd Grŵp Sgiliau Digidol, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru), a Ceri Stephens (Cadeirydd, grŵp clwstwr Gweithgynhyrchu a Pheirianneg y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru).

## 4 Llwybrau prentisiaeth - Panel 5 - Llywodraeth Cymru

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru a oedd yn cymryd lle Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru, a anfonodd ei ymddiheuriadau yn sgil materion personol.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 6 Trafod y dystiolaeth yn dilyn y cyfarfod a'r adroddiad ymgysylltu drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 3 a 4.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch cwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn, ac i ofyn am wybodaeth ddilynol mewn rhai meysydd.

## 7 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Hawliau Cyflogaeth - Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunwyd arno

## 8 Iechyd y Pridd: Trafod y papur cwmpas a dull

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar bapur cwmpas a dull yr ymchwiliad newydd i Iechyd y Pridd ym maes amaethyddiaeth, a chadarnhaodd y rhanddeiliaid i'w gwahodd i roi tystiolaeth lafar ar ddechrau tymor yr haf.

## 9 Yr Economi Werdd: Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod a chytuno ar yr argymhellion drafft diwygiedig sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ac roedd yn fodlon symud ymlaen i gyhoeddi'r adroddiad yn dilyn y newidiadau hyn.